



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2011 Rhif 924 (Cy.133)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

LLYGRU MOROL, CYMRU

**TRIBIWNLYSOEDD AC
YMCHWILIADAU, CYMRU**

**Gorchymyn Trwyddedu Morol
(Sanctiynau Sifil) (Cymru) 2011**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, fel awdurdod gorfodi o dan adran 114(2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("y Ddeddf"), i osod cosbau ariannol penodedig a chosbau ariannol newidiol mewn perthynas â rhai tramgwyddau o dan y Ddeddf.

Mae Rhan 1 o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol a diffiniadau (*gweler* adran 115(1) o'r Ddeddf am ddiffiniadau perthnasol eraill).

Mae Rhan 2 yn cynnwys darpariaethau ynglŷn â chosbau ariannol penodedig. Yn erthygl 4 rhoddir pŵer i'r awdurdod gorfodi i osod cosb o'r fath mewn perthynas â thrangwydd o dan adran 85(1) o'r Ddeddf (torri gofyniad i gael, neu dorri amodau, trwydded). Mae erthygl 5 yn ymdrin â hysbysiadau o fwriad ac erthygl 6 yn darparu ar gyfer gwneud taliadau i gyflawni rhwymedigaeth ar ôl i hysbysiad o'r fath gael ei gyflwyno. Mae erthyglau 7 ac 8 yn ymdrin â gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau a rhoi hysbysiadau terfynol sy'n gosod cosbau. Mae erthyglau 9 a 10 yn darparu ar gyfer disgownt am dalu'n gynnar, dyddiadau talu a chosbau am dalu'n hwyr. Mae erthygl 11 yn cynnwys darpariaethau sy'n cyfyngu ar gyfuno cosb ariannol benodedig gyda sanctiynau eraill sydd ar gael

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 No. 924 (W.133)

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

**MARINE POLLUTION,
WALES**

**TRIBUNALS AND INQUIRIES,
WALES**

**The Marine Licensing (Civil
Sanctions) (Wales) Order 2011**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order confers on the Welsh Ministers, as an enforcement authority under section 114(2) of the Marine and Coastal Access Act 2009 ("the Act"), powers to impose fixed monetary penalties and variable monetary penalties in relation to certain offences under the Act.

Part 1 of this Order contains introductory provisions and definitions (*see* section 115(1) of the Act for further relevant definitions).

Part 2 contains provisions relating to fixed monetary penalties. Article 4 confers power on the enforcement authority to impose such a penalty in relation to an offence under section 85(1) of the Act (breach of requirement for, or conditions of, a licence). Article 5 deals with notices of intent and article 6 provides for making payments to discharge liability where such notices have been served. Articles 7 and 8 deal with making representations and objections and giving final notices imposing penalties. Articles 9 and 10 make provision for early payment discount, payment dates and late payment penalties. Article 11 contains provisions restricting the combination of a fixed monetary penalty with other sanctions available under the Act, and article 12 sets out rights of appeal.

o dan y Ddeddf, ac y mae erthygl 12 yn pennu hawliau apelio.

Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â chosbau ariannol newidiol. Mae erthygl 13 yn rhoi pŵer i awdurdod gorfodi osod cosb ariannol newidiol mewn perthynas â thramgwyddau o dan adrannau 85(1) (torri gofyniad i gael, neu dorri amodau, trwydded), 89(1) (gwybodaeth) a 92(3)(b) (methiant i gydymffurfio â hysbysiad adfer) o'r Ddeddf. Mae erthygl 14 yn ymdrin â hysbysiadau o fwriad, erthygl 15 yn ymdrin â gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau, ac erthygl 16 yn cynnwys darpariaethau ynglŷn â chynnig a derbyn ymrwymadau. Gwneir darpariaethau ar gyfer rhoi hysbysiadau terfynol sy'n gosod cosbau (erthygl 17), pennu dyddiadau talu (erthygl 18) a chyfyngu ar gyfuno cosb ariannol newidiol gyda sancsiynau eraill (erthygl 19). Mae erthygl 20 yn pennu hawliau apelio yn erbyn gosod cosb ariannol newidiol. Mae erthygl 21 yn rhoi hawl i'r awdurdod gorfodi wneud yn ofynnol bod person y gosodwyd cosb ariannol newidiol arno yn talu'r costau a achosir felly i'r awdurdod gorfodi, ac y mae erthygl 22 yn rhoi hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i osod costau.

Yn Rhan 4, pennir gofynion mewn perthynas â chyhoeddi canllawiau (erthyglau 23 a 24) a chamau gorfodi (erthygl 25). Mae paragraff 10 o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn pennu gofynion cyhoeddi pellach ar gyfer canllawiau ar orfodi, mewn perthynas â thramgwyddau y gellir gosod sancsiynau sifil am eu cyflawni. Mae copïau o'r canllawiau y cyfeirir atynt ar gael o Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cynulliad Cymru, neu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y cyfeiriad isod.

Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol. Mae erthyglau 26 a 27 yn ymdrin ag adennill taliadau a thalu rhai symiau arian i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae erthygl 28 yn cynnwys darpariaethau pellach ynglŷn ag apelau (gwneir pob apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf). Mae erthygl 29 yn cynnwys darpariaethau ynghylch cyflwyno hysbysiadau, ac erthygl 30 yn cynnwys darpariaethau ynghylch tynnu'n ôl neu ddiwygio hysbysiadau terfynol neu leihau'r swm taladwy.

Mae asesiad llawn o'r effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei chael ar gostau busnes, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus ar gael o'r Uned Caniatadau Morol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk.

Part 3 contains provisions relating to variable monetary penalties. Article 13 confers power on the enforcement authority to impose a variable monetary penalty in relation to offences under sections 85(1) (breach of condition of, or requirement for, a licence), 89(1) (information) and 92(3)(b) (failure to comply with a remediation notice) of the Act. Article 14 deals with notices of intent, article 15 deals with making representations and objections, and article 16 contains provisions relating to offering and accepting undertakings. There are provisions for giving final notices imposing penalties (article 17), setting out payment dates (article 18) and restricting the combination of a variable monetary penalty with other sanctions (article 19). Article 20 sets out rights of appeal against the imposition of a variable monetary penalty. Article 21 confers on the enforcement authority a power to require a person on whom a variable monetary penalty is imposed to pay costs incurred by the enforcement authority, and article 22 gives a right of appeal against a decision to impose costs.

Part 4 sets out requirements relating to publication of guidance (articles 23 and 24) and enforcement action (article 25). Paragraph 10 of Schedule 7 to the Act sets out further publication requirements for guidance relating to the enforcement of offences for which civil sanctions can be imposed. Copies of the guidance referred to are available from the Marine Consents Unit of the Welsh Assembly Government or from the Welsh Assembly Government website, at the address below.

Part 5 contains general provisions. Articles 26 and 27 deal with the recovery of payments and for paying certain monies received into the Welsh Consolidated Fund. Article 28 contains further provisions relating to appeals (all appeals are to the First-tier Tribunal). Article 29 contains provisions relating to the service of notices, and article 30 contains provisions relating to the withdrawal or amendment of final notices or reduction of the amount payable.

A full impact assessment of the effect that this instrument will have on the costs of business, the voluntary sector and the public sector is available from the Marine Consents Unit, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ or at the Welsh Assembly Government website at www.wales.gov.uk.

2011 Rhif 924 (Cy.133)

2011 No. 924 (W.133)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

LLYGRU MOROL, CYMRU

**MARINE POLLUTION,
WALES**

**TRIBIWNLYSOEDD AC
YMCHWILIADAU, CYMRU**

**TRIBUNALS AND INQUIRIES,
WALES**

Gorchymyn Trwyddedu Morol
(Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2011

The Marine Licensing (Civil
Sanctions) (Wales) Order 2011

Gwnaed 22 Mawrth 2011

Made 22 March 2011

Yn dod i rym 6 Ebrill 2011

Coming into force 6 April 2011

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

Darpariaethau rhagarweiniol

Introductory provisions

1. Enwi a chychwyn
2. Cymhwyso
3. Dehongli

1. Title and commencement
2. Application
3. Interpretation

RHAN 2

PART 2

Cosbau ariannol benodedig

Fixed monetary penalties

4. Pŵer i osod cosb ariannol benodedig
5. Hysbysiad o fwriad
6. Cyflawni rhwymedigaeth
7. Sylwadau a gwrthwynebiadau
8. Gosod cosb ariannol benodedig
9. Disgownt am dalu'n gynnar
10. Dyddiadau talu a chosbau am dalu'n hwyr
11. Cyfyngiadau ar sancsiynau eraill
12. Apelau yn erbyn cosbau ariannol benodedig

4. Power to impose fixed monetary penalty
5. Notice of intent
6. Discharge of liability
7. Representations and objections
8. Imposition of fixed monetary penalty
9. Discount for early payment
10. Payment dates and late payment penalties
11. Restrictions on other sanctions
12. Appeals against fixed monetary penalties

RHAN 3

Cosbau ariannol newidiol

13. Pŵer i osod cosb ariannol newidiol
14. Hysbysiad o fwriad
15. Sylwadau a gwrthwynebiadau
16. Ymrwymadau i weithredu er budd personau yr effeithir arnynt
17. Gosod cosb ariannol newidiol
18. Dyddiadau talu
19. Cyfyngiadau ar sancsiynau eraill
20. Apelau yn erbyn cosbau ariannol newidiol
21. Hysbysiadau adennill costau gorfodi
22. Apelau yn erbyn hysbysiadau adennill costau gorfodi

RHAN 4

Canllawiau a chyhoeddi camau gorfodi

23. Canllawiau ynghylch defnyddio sancsiynau sifil
24. Canllawiau ynghylch y gofyniad i dalu costau
25. Cyhoeddi camau gorfodi

RHAN 5

Darpariaethau cyffredinol

26. Adennill taliadau
27. Talu rhai taliadau cyflawni rhwymedigaeth i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru
28. Apelau — darpariaethau pellach
29. Cyflwyno hysbysiadau
30. Diwygio neu dynnu'n ôl hysbysiadau terfynol i ddadwneud neu leihau cosb neu gywiro gwallau

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(1), yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 93, 95 a 316(1)(b) o'r Ddeddf honno a pharagraffau 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9(1) ac 11(1) a (4) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cynnal ymgynghoriad yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

PART 3

Variable monetary penalties

13. Power to impose variable monetary penalty
14. Notice of intent
15. Representations and objections
16. Undertakings to benefit affected persons
17. Imposition of variable monetary penalty
18. Payment dates
19. Restrictions on other sanctions
20. Appeals against variable monetary penalties
21. Enforcement costs recovery notices
22. Appeals against enforcement costs recovery notices

PART 4

Guidance and publication of enforcement action

23. Guidance as to use of civil sanctions
24. Guidance as to requirement to pay costs
25. Publication of enforcement action

PART 5

General provisions

26. Recovery of payments
27. Payment of certain discharge payments into Welsh Consolidated Fund
28. Appeals — further provisions
29. Service of notices
30. Amending or withdrawing final notices to rescind or reduce a penalty or to correct errors

The Welsh Ministers, as the appropriate licensing authority under section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009(1), make the following Order in exercise of the powers conferred by sections 93, 95 and 316(1)(b) of, and paragraphs 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9(1) and 11(1) and (4) of Schedule 7 to, that Act.

The Welsh Ministers have carried out a consultation in accordance with paragraph 8 of Schedule 7 to that Act.

Yn unol ag adran 316(6)(b) a (7)(d) o'r Ddeddf honno, mae drafft o'r Gorchymyn hwn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

In accordance with section 316(6)(b) and (7)(d) of that Act, a draft of this Order has been laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales.

RHAN 1

Darpariaethau rhagarweiniol

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Morol (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Ebrill 2011.

Cymhwysio

2. Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy, y mae Gweinidogion Cymru yn—

- (a) awdurdod trwyddedu priodol(1) ar ei gyfer (a dylid darllen y cyfeiriad yn erthygl 25(2) at "yr awdurdod trwyddedu" yn unol â hynny);
- (b) yn awdurdod gorfodi(2) ar ei gyfer (a dylid darllen cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at "yr awdurdod gorfodi" yn unol â hynny).

Dehongli

3. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009;

mae i "hysbysiad o fwriad" ("*notice of intent*")—

- (a) mewn perthynas â chosb ariannol benodedig, yr ystyr a roddir gan erthygl 5(1);
- (b) mewn perthynas â chosb ariannol newidiol, yr ystyr a roddir gan erthygl 14(1);

mae i "hysbysiad terfynol" ("*final notice*")—

- (a) mewn perthynas â chosb ariannol benodedig, yr ystyr a roddir gan erthygl 8(3);

(1) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir wrth ymgymryd â gweithgareddau morol trwyddedadwy o ran Cymru a rhanbarth glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer o dan adrannau 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf honno. Mae i "rhanbarth glannau Cymru" yr ystyr a roddir i "Welsh inshore region" yn adran 322(1) o'r Ddeddf.

(2) Mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod gorfodi ar gyfer yr ardaloedd y mae Gweinidogion Cymru yn Awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer. at ddibenion y Gorchymyn hwn (*gweler* adran 114(2) o'r Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

PART 1

Introductory provisions

Title and commencement

1.—(1) The title of this Order is the Marine Licensing (Civil Sanctions) (Wales) Order 2011.

(2) This Order comes into force on 6 April 2011.

Application

2. This Order applies in relation to any licensable marine activity for which the Welsh Ministers are—

- (a) the appropriate licensing authority(1) (and the reference in article 25(2) to "the licensing authority" is to be read accordingly);
- (b) an enforcement authority(2) (and references in this Order to "the enforcement authority" are to be read accordingly).

Interpretation

3. In this Order—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Marine and Coastal Access Act 2009;

"civil sanction" ("*sancsiwn sifil*") means a fixed monetary penalty or a variable monetary penalty(3);

"final notice" ("*hysbysiad terfynol*")—

- (a) in relation to a fixed monetary penalty, has the meaning given by article 8(3);
- (b) in relation to a variable monetary penalty, has the meaning given by article 17(4);

(1) By virtue of section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009, the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority as respects anything done in the course of carrying on licensable marine activities in relation to Wales and the Welsh inshore region other than activities for which the Secretary of State is the appropriate licensing authority by virtue of sections 113(4)(a) and (5) of that Act. *See* section 322(1) for the definition of the Welsh inshore region.

(2) The Welsh Ministers are an enforcement authority for the areas for which the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority for the purposes of this Order (*see* section 114(2) of the Marine and Coastal Access Act 2009).

(3) *See* section 115(1) of the Act for a definition of these terms.

(b) mewn perthynas â chosb ariannol newidiol, yr ystyr a roddir gan erthygl 17(4);

ystyr "sancsiwn sifil" ("*civil sanction*") yw cosb ariannol benodedig neu gosb ariannol newidiol(1).

RHAN 2

Cosbau ariannol penodedig

Pŵer i osod cosb ariannol penodedig

4.—(1) Caiff yr awdurdod gorfodi, drwy hysbysiad, osod cosb ariannol benodedig ar berson mewn perthynas â thramgwydd o dan adran 85(1) o'r Ddeddf (torri gofyniad i gael trwydded, neu dorri ei hamodau).

(2) Cyn gwneud hynny, fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod gorfodi fod wedi ei fodloni tu hwnt i amheuaeth resymol fod y person wedi cyflawni'r tramgwydd.

(3) Swm y gosb ariannol benodedig yw £100 yn achos unigolyn, neu £300 ym mhob achos arall.

Hysbysiad o fwriad

5.—(1) Pan fo'r awdurdod gorfodi'n bwriadu gosod cosb ariannol benodedig ar berson, rhaid i'r awdurdod gorfodi gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad o'r hyn y bwriedir ei wneud ("*hysbysiad o fwriad*").

(2) Rhaid i'r hysbysiad gynnig cyfle i'r person gyflawni ei rwymedigaeth am y gosb ariannol benodedig drwy dalu 50% o swm y gosb o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y mae'n cael yr hysbysiad o fwriad.

(3) Rhaid i'r hysbysiad o fwriad gynnwys gwybodaeth hefyd am—

- (a) seiliau'r bwriad i osod y gosb ariannol benodedig;
- (b) swm y gosb ariannol benodedig y bwriedir ei gosod;
- (c) effaith talu'r swm y cyfeirir ato yn erthygl 6;
- (ch) yr hawl i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau;
- (d) yr amgylchiadau pan na chaiff yr awdurdod gorfodi osod y gosb ariannol benodedig;
- (dd) y cyfnod, y cyfeirir ato yn erthygl 6, y ceir cyflawni'r rhwymedigaeth am y gosb ariannol benodedig ynddo;

"notice of intent" ("*hysbysiad o fwriad*")—

(a) in relation to a fixed monetary penalty, has the meaning given by article 5(1);

(b) in relation to a variable monetary penalty, has the meaning given by article 14(1).

PART 2

Fixed monetary penalties

Power to impose fixed monetary penalty

4.—(1) The enforcement authority may by notice impose a fixed monetary penalty on a person in relation to an offence under section 85(1) of the Act (breach of requirement for, or conditions of, a licence).

(2) But before doing so, the enforcement authority must be satisfied beyond reasonable doubt that the person has committed the offence.

(3) The amount of the fixed monetary penalty is £100 for an individual or £300 in any other case.

Notice of intent

5.—(1) Where the enforcement authority proposes to impose a fixed monetary penalty on a person, it must serve on that person a notice of what is proposed (a "notice of intent").

(2) The notice must offer the person the opportunity to discharge the person's liability for the fixed monetary penalty by payment of 50% of the amount of the penalty within the period of 28 days beginning with the day on which the notice of intent is received.

(3) The notice must also include information as to—

- (a) the grounds for the proposal to impose the fixed monetary penalty;
- (b) the amount of the proposed fixed monetary penalty;
- (c) the effect of payment of the sum referred to in article 6;
- (d) the right to make representations and objections;
- (e) the circumstances in which the enforcement authority may not impose the fixed monetary penalty;
- (f) the period, referred to in article 6, within which liability to the fixed monetary penalty may be discharged;

(1) Gweler adran 115(1) o'r Ddeddf ar gyfer diffinad o'r termau hyn.

(e) y cyfnod, y cyfeirir ato yn erthygl 7(1), y ceir gwneud sylwadau neu wrthwynebiadau ynddo.

(4) Ond ni chaiff yr awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad o fwriad i berson mewn perthynas ag unrhyw weithred neu anwaith pan fo—

- (a) cosb ariannol newidiol wedi ei gosod ar y person hwnnw mewn perthynas â'r weithred honno neu'r anwaith hwnnw;
- (b) hysbysiad stop(1) wedi ei gyflwyno i'r person hwnnw mewn perthynas â'r weithred honno neu'r anwaith hwnnw.

Cyflawni rhwymedigaeth

6. Caiff person sy'n cael hysbysiad o fwriad gyflawni ei rwymedigaeth am y gosb ariannol benodedig drwy dalu i'r awdurdod gorfodi 50% o swm y gosb o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y daw'r hysbysiad o fwriad i law.

Sylwadau a gwrthwynebiadau

7.—(1) Caiff person y cyflwynwyd hysbysiad o fwriad iddo gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r awdurdod gorfodi mewn perthynas â'r bwriad i osod y gosb ariannol benodedig, o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y daw'r hysbysiad o fwriad i law.

(2) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys pan fo person wedi cyflawni ei rwymedigaeth o dan erthygl 6.

Gosod cosb ariannol benodedig

8.—(1) Rhaid i'r awdurdod gorfodi, ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau, benderfynu a ddylid gosod y gosb ariannol benodedig.

(2) Rhaid i'r awdurdod gorfodi beidio â phenderfynu gosod cosb ariannol benodedig ar berson, os bodlonir yr awdurdod na fyddai'r person, oherwydd unrhyw amddiffyniad, yn agored i'w gollfarnu o'r tramgwydd y bwriedid gosod y gosb mewn cysylltiad ag ef.

(3) Pan fo'r awdurdod gorfodi yn penderfynu gosod y gosb ariannol benodedig, rhaid i'r hysbysiad sy'n ei gosod (yr "hysbysiad terfynol") gynnwys gwybodaeth fel a ganlyn—

- (a) y seiliau dros osod y gosb;
- (b) swm y gosb;
- (c) sut y gellir talu;
- (ch) y cyfnod y mae'n rhaid talu ynddo;
- (d) unrhyw ddisgowntiau am dalu'n gynnar neu gosbau am dalu'n hwyr;
- (dd) hawliau i apelio; ac
- (e) canlyniadau peidio â thalu.

(g) the period, referred to in article 7(1), within which representations and objections may be made.

(4) But the enforcement authority may not serve a notice of intent on a person in relation to any act or omission where—

- (a) a variable monetary penalty has been imposed on that person in relation to that act or omission;
- (b) a stop notice(1) has been served on that person in relation to that act or omission.

Discharge of liability

6. A person who receives a notice of intent may discharge liability for the fixed monetary penalty by paying to the enforcement authority 50% of the amount of the penalty within the period of 28 days beginning with the day on which the notice of intent is received.

Representations and objections

7.—(1) A person on whom a notice of intent is served may, within the period of 28 days beginning with the day on which the notice of intent is received, make written representations and objections to the enforcement authority in relation to the proposed imposition of the fixed monetary penalty.

(2) This article does not apply where a person has discharged liability under article 6.

Imposition of fixed monetary penalty

8.—(1) The enforcement authority must after the end of the period for making representations and objections decide whether to impose the fixed monetary penalty.

(2) The enforcement authority must not decide to impose a fixed monetary penalty on a person where the authority is satisfied that the person would not, by reason of any defence, be liable to be convicted of the offence in relation to which the penalty is proposed to be imposed.

(3) Where the enforcement authority decides to impose the fixed monetary penalty, the notice imposing it (the "final notice") must include information as to—

- (a) the grounds for imposing the penalty;
- (b) the amount of the penalty;
- (c) how payment may be made;
- (d) the period within which payment must be made;
- (e) any early payment discounts or late payment penalties;
- (f) rights of appeal; and
- (g) the consequences of non—payment.

(1) *Gweler* adran 115(1) o'r Ddeddf ar gyfer y diffiniad o'r term hwn.

(1) *See* section 115(1) of the Act for a definition of this term.

(4) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys pan fo person wedi cyflawni ei rwymedigaeth o dan erthygl 6.

(5) Mae'r erthygl hon yn ddarostyngedig i erthygl 30 (diwygio neu dynnu'n ôl hysbysiadau terfynol i ddadwneud neu leihau cosb neu gywiro gwallau).

Disgownt am dalu'n gynnar

9. Caiff person sy'n gwneud sylwadau neu wrthwynebiadau yn unol ag erthygl 7 gyflawni ei rwymedigaeth am y gosb ariannol benodedig drwy dalu i'r awdurdod gorfodi 50% o swm y gosb o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y daw'r hysbysiad terfynol i law.

Dyddiadau talu a chosbau am dalu'n hwyr

10.—(1) Os na wneir apêl yn erbyn y penderfyniad i osod cosb ariannol benodedig, rhaid i'r gosb gael ei thalu o fewn cyfnod o 56 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y daeth yr hysbysiad terfynol i law.

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, os na thelir cosb ariannol benodedig o fewn y cyfnod o 56 diwrnod, bydd y person sy'n atebol i dalu'r gosb ariannol benodedig yn atebol hefyd i dalu, i'r awdurdod gorfodi, gosb am dalu'n hwyr o 50% o swm y gosb ariannol benodedig.

(3) Pan fo apêl wedi ei gwneud, ond y gosb ariannol benodedig yn parhau'n daladwy ar ôl yr apêl honno, rhaid i'r gosb gael ei thalu o fewn cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y penderfynwyd yr apêl.

(4) Pan fo paragraff (3) yn gymwys, os na thelir cosb ariannol benodedig o fewn y cyfnod o 28 diwrnod, bydd y person sy'n atebol i dalu'r gosb ariannol benodedig yn atebol hefyd i dalu, i'r awdurdod gorfodi, gosb am dalu'n hwyr o 50% o swm y gosb ariannol benodedig.

Cyfyngiadau ar sancsiynau eraill

11.—(1) Pan fo hysbysiad o fwriad wedi ei gyflwyno i berson—

- (a) ni chaniateir dechrau achos troseddol ynglŷn â'r tramgwydd y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, yn erbyn y person hwnnw mewn perthynas â'r weithred neu'r anwaith y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi neu ef cyn diwedd cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r dyddiad y daeth yr hysbysiad o fwriad i law; a
- (b) os yw'r person hwnnw yn cyflawni ei rwymedigaeth am y gosb ariannol benodedig yn unol ag erthygl 6, ni chaniateir i'r person hwnnw ar unrhyw adeg gael ei gollfarnu o'r tramgwydd y mae'r hysbysiad o fwriad yn ymwneud ag ef mewn perthynas â'r weithred honno neu'r anwaith hwnnw.

(4) This article does not apply where a person has discharged liability under article 6.

(5) This article is subject to article 30 (amending or withdrawing final notices to rescind or reduce a penalty or to correct errors).

Discount for early payment

9. A person who makes representations or objections in accordance with article 7 may discharge liability for the fixed monetary penalty by paying to the enforcement authority 50% of the amount of the penalty within the period of 28 days beginning with the day on which the final notice is received.

Payment dates and late payment penalties

10.—(1) Where no appeal is brought against the decision to impose a fixed monetary penalty, the penalty must be paid within the period of 56 days beginning with the day on which the final notice is received.

(2) Where paragraph (1) applies, if a fixed monetary penalty is not paid within the period of 56 days, the person liable to pay the fixed monetary penalty is also liable to pay to the enforcement authority a late payment penalty of 50% of the amount of the fixed monetary penalty.

(3) Where an appeal is brought but a fixed monetary penalty remains payable following that appeal, the penalty must be paid within the period of 28 days beginning with the day the appeal was determined.

(4) Where paragraph (3) applies, if a fixed monetary penalty is not paid within the period of 28 days, the person liable to pay the fixed monetary penalty is also liable to pay to the enforcement authority a late payment penalty of 50% of the amount of the fixed monetary penalty.

Restrictions on other sanctions

11.—(1) Where a notice of intent has been served on a person—

- (a) no criminal proceedings for the offence to which the notice relates may be instituted against the person in respect of the act or omission to which the notice relates before the end of the period of 28 days beginning with the day on which the notice of intent is received; and
- (b) if the person discharges liability for the fixed monetary penalty in accordance with article 6, the person may not at any time be convicted of the offence to which the notice of intent relates in relation to that act or omission.

(2) Pan osodir cosb ariannol benodedig ar berson—

- (a) ni chaniateir i'r person hwnnw ar unrhyw adeg gael ei gollfarnu o'r tramgwydd y gosodwyd y gosb mewn cysylltiad ag ef, mewn perthynas â'r weithred neu'r anwaith a arweiniodd at y gosb;
- (b) ni chaiff yr awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad cydymffurfio na hysbysiad adfer(1) i'r person hwnnw mewn perthynas â'r weithred neu'r anwaith a arweiniodd at y gosb.

(3) Ni chaiff yr awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad stop i berson mewn perthynas ag unrhyw weithred neu anwaith—

- (a) pan fo cosb ariannol benodedig wedi ei gosod ar y person hwnnw mewn perthynas â'r weithred honno neu'r anwaith hwnnw; neu
- (b) pan fo'r person wedi cyflawni ei rwymedigaeth am gosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r weithred honno neu'r anwaith hwnnw, yn unol ag erthygl 6.

Apelau yn erbyn cosbau ariannol penodedig

12.—(1) Caiff y person y gosodir cosb ariannol benodedig arno apelio yn erbyn y penderfyniad i'w gosod(2).

(2) Y seiliau apelio yw—

- (a) bod y penderfyniad wedi'i seilio ar gamgymeriad ffeithiol;
- (b) bod y penderfyniad yn anghywir yn gyfreithiol;
- (c) bod y penderfyniad yn afresymol;
- (ch) unrhyw reswm arall a ganiateir gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

RHAN 3

Cosbau ariannol newidiol

Pŵer i osod cosb ariannol newidiol

13.—(1) Caiff yr awdurdod gorfodi drwy hysbysiad osod cosb ariannol newidiol ar berson mewn perthynas ag—

- (a) tramgwydd o dan adran 85(1) o'r Ddeddf (torri gofyniad i gael, neu dorri amodau, trwydded);
- (b) tramgwydd o dan adran 89(1) o'r Ddeddf (gwybodaeth);

(1) *Gweler* adran 115(1) o'r Ddeddf ar gyfer diffinad o'r termau hyn.

(2) *Gweler* erthygl 28 am ddarpariaethau pellach ynglŷn ag apelau.

(2) Where a fixed monetary penalty is imposed on a person—

- (a) that person may not at any time be convicted of the offence in relation to which the penalty was imposed in respect of the act or omission giving rise to the penalty;
- (b) the enforcement authority may not issue a compliance notice or a remediation notice(1) to that person in respect of the act or omission giving rise to the penalty.

(3) The enforcement authority may not serve a stop notice on a person in relation to any act or omission where—

- (a) a fixed monetary penalty has been imposed on that person in relation to that act or omission; or
- (b) the person has discharged liability for a fixed monetary penalty in relation to that act or omission in accordance with article 6.

Appeals against fixed monetary penalties

12.—(1) The person on whom a fixed monetary penalty is imposed may appeal against the decision to impose it(2).

(2) The grounds of appeal are—

- (a) that the decision was based on an error of fact;
- (b) that the decision was wrong in law;
- (c) that the decision was unreasonable;
- (d) any other reason permitted by the First-tier Tribunal.

PART 3

Variable monetary penalties

Power to impose variable monetary penalty

13.—(1) The enforcement authority may by notice impose a variable monetary penalty on a person in relation to—

- (a) an offence under section 85(1) of the Act (breach of requirement for, or conditions of, a licence);
- (b) an offence under section 89(1) of the Act (information);

(1) *See* section 115(1) of the Act for a definition of these terms.

(2) *See* article 28 for further provisions relating to appeals.

- (c) tramgwydd o dan adran 92(3)(b) o'r Ddeddf (methiant i gydymffurfio â hysbysiad adfer).

(2) Ond cyn gwneud hynny rhaid i'r awdurdod gorfodi fod wedi'i fodloni y tu hwnt i amheuaeth resymol fod y person wedi cyflawni'r tramgwydd.

Hysbysiad o fwriad

14.—(1) Pan fo'r awdurdod gorfodi'n bwriadu gosod cosb ariannol newidiol ar berson, rhaid i'r awdurdod gorfodi gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad o'r hyn a fwriedir ("hysbysiad o fwriad").

(2) Rhaid i'r hysbysiad o fwriad gynnwys gwybodaeth fel a ganlyn—

- (a) seiliau'r bwriad i osod y gosb ariannol newidiol;
- (b) swm y gosb ariannol newidiol a fwriedir;
- (c) yr amgylchiadau pan na chaiff yr awdurdod gorfodi osod y gosb ariannol newidiol; ac
- (ch) y cyfnod, y cyfeirir ato yn erthygl 15, y ceir gwneud sylwadau neu wrthwynebiadau ynddo.

(3) Ond ni chaiff yr awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad o fwriad i berson mewn perthynas ag unrhyw weithred neu anwaith pan fo—

- (a) cosb ariannol benodedig wedi ei gosod ar y person hwnnw mewn perthynas â'r weithred honno neu'r anwaith hwnnw; neu
- (b) pan fo'r person wedi cyflawni ei rwymedigaeth am gosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r weithred honno neu'r anwaith hwnnw, yn unol ag erthygl 6.

Sylwadau a gwrthwynebiadau

15. Caiff person y cyflwynwyd hysbysiad o fwriad iddo, o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y daw'r hysbysiad o fwriad i law, gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau i'r awdurdod gorfodi mewn perthynas â'r bwriad i osod y gosb.

Ymrwymadau i weithredu er budd personau yr effeithir arnynt

16.—(1) Caiff person y cyflwynir hysbysiad o fwriad iddo gynnig ymrwymiad y cymerir camau gan y person hwnnw (gan gynnwys talu swm o arian) er budd unrhyw berson yr effeithiwyd arno gan y tramgwydd.

(2) Caiff yr awdurdod gorfodi naill ai dderbyn neu wrthod ymrwymiad o'r fath.

- (c) an offence under section 92(3)(b) of the Act (failure to comply with a remediation notice).

(2) But before doing so, the enforcement authority must be satisfied beyond reasonable doubt that the person has committed the offence.

Notice of intent

14.—(1) Where the enforcement authority proposes to impose a variable monetary penalty on a person, the authority must serve on that person a notice (a "notice of intent").

(2) The notice of intent must include information as to—

- (a) the grounds for the proposal to impose the variable monetary penalty;
- (b) the amount of the proposed variable monetary penalty;
- (c) the circumstances in which the enforcement authority may not impose the variable monetary penalty; and
- (d) the period, referred to in article 15, within which representations and objections may be made.

(3) But the enforcement authority may not serve a notice of intent on a person in relation to any act or omission where—

- (a) a fixed monetary penalty has been imposed on that person in relation to that act or omission; or
- (b) the person has discharged liability for a fixed monetary penalty in relation to that act or omission in accordance with article 6.

Representations and objections

15. A person on whom a notice of intent is served may, within the period of 28 days beginning with the day on which the notice of intent is received, make written representations and objections to the enforcement authority in relation to the proposed imposition of the penalty.

Undertakings to benefit affected persons

16.—(1) A person on whom a notice of intent is served may offer an undertaking as to action to be taken by that person (including the payment of a sum of money) to benefit any person affected by the offence.

(2) The enforcement authority may accept or reject such an undertaking.

Gosod cosb ariannol newidiol

17.—(1) Rhaid i'r awdurdod gorfodi, ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau, benderfynu a ddylid gosod cosb ariannol newidiol, ac os felly, swm y gosb.

(2) Wrth benderfynu felly, rhaid i'r awdurdod gorfodi gymryd i ystyriaeth unrhyw ymrwymiad a dderbyniwyd ganddo o dan erthygl 16(2).

(3) Rhaid i'r awdurdod gorfodi beidio â phenderfynu gosod cosb ariannol newidiol ar berson, os yw'r awdurdod wedi'i fodloni na fyddai'r person, oherwydd unrhyw amddiffyniad a godir gan y person hwnnw, yn agored i'w gollfarnu o'r tramgwydd y bwriedid gosod y gosb mewn cysylltiad ag ef.

(4) Pan fo'r awdurdod gorfodi yn penderfynu gosod cosb ariannol newidiol, rhaid i'r hysbysiad sy'n ei gosod (yr "hysbysiad terfynol") gynnwys gwybodaeth am y canlynol—

- (a) y seiliau dros osod y gosb;
- (b) swm y gosb;
- (c) sut y gellir talu;
- (ch) y cyfnod y mae'n rhaid talu ynddo;
- (d) hawliau i apelio; ac
- (dd) canlyniadau peidio â thalu.

(5) Mae'r erthygl hon yn ddarostyngedig i erthygl 30.

Dyddiadau talu

18.—(1) Os na wneir apêl yn erbyn y penderfyniad i osod cosb ariannol newidiol, rhaid i'r gosb gael ei thalu o fewn cyfnod o 56 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y daeth yr hysbysiad terfynol i law, neu ba bynnag gyfnod diweddarach a gytunir gan yr awdurdod gorfodi mewn ysgrifen.

(2) Pan fo apêl wedi ei gwneud, ond y gosb ariannol newidiol yn parhau'n daladwy ar ôl yr apêl honno, rhaid i'r gosb gael ei thalu o fewn cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y penderfynwyd yr apêl.

Cyfyngiadau ar sancsiynau eraill

19. Pan fo cosb ariannol newidiol wedi ei gosod ar berson—

- (a) ni chaniateir i'r person hwnnw ar unrhyw adeg gael ei gollfarnu o'r tramgwydd y gosodwyd y gosb mewn cysylltiad ag ef, mewn perthynas â'r weithred neu'r anwaith a arweiniodd at y gosb;
- (b) ni chaiff yr awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw mewn perthynas â'r weithred neu'r anwaith a arweiniodd at y gosb.

Imposition of variable monetary penalty

17.—(1) After the end of the period for making representations and objections, the enforcement authority must decide whether to impose a variable monetary penalty and, if so, the amount of the penalty.

(2) In so deciding, the enforcement authority must take into account any undertaking accepted under article 16(2).

(3) The enforcement authority must not decide to impose a variable monetary penalty on a person where the authority is satisfied that the person would not, by reason of any defence raised by that person, be liable to be convicted of the offence in relation to which the penalty is proposed to be imposed.

(4) Where the enforcement authority decides to impose a variable monetary penalty, the notice imposing it (the "final notice") must include information as to—

- (a) the grounds for imposing the penalty;
- (b) the amount of the penalty;
- (c) how payment may be made;
- (d) the period within which payment must be made;
- (e) rights of appeal; and
- (f) the consequences of non-payment.

(5) This article is subject to article 30.

Payment dates

18.—(1) Where no appeal is brought against the decision to impose a variable monetary penalty, the penalty must be paid within the period of 56 days beginning with the day on which the final notice is received, or such later period as the enforcement authority may agree in writing.

(2) Where an appeal is brought but a variable monetary penalty remains payable following that appeal, the penalty must be paid within the period of 28 days beginning with the day the appeal is determined.

Restrictions on other sanctions

19. Where a variable monetary penalty is imposed on a person—

- (a) that person may not at any time be convicted of the offence in relation to which the penalty was imposed in respect of the act or omission giving rise to the penalty;
- (b) the enforcement authority may not issue a compliance notice to that person in respect of the act or omission giving rise to the penalty.

Apelau yn erbyn cosbau ariannol newidiol

20.—(1) Caiff y person y gosodir cosb ariannol newidiol arno apelio yn erbyn y penderfyniad i'w gosod neu yn erbyn swm y gosb.

(2) Y seiliau apelio yw—

- (a) bod y penderfyniad wedi'i seilio ar gamgymeriad ffeithiol;
- (b) bod y penderfyniad yn anghywir yn gyfreithiol;
- (c) bod swm y gosb yn afresymol;
- (ch) bod y penderfyniad yn afresymol am unrhyw reswm arall;
- (d) unrhyw reswm arall a ganiateir gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

Hysbysiadau adennill costau gorfodi

21.—(1) Caiff yr awdurdod gorfodi drwy hysbysiad wneud yn ofynnol bod person y gosodwyd cosb ariannol newidiol arno yn talu'r costau a achoswyd i'r awdurdod gorfodi mewn perthynas â gosod y gost, hyd at yr amser y'i gosodwyd.

(2) Rhaid i'r hysbysiad bennu'r swm y mae'n ofynnol ei dalu.

(3) Caiff y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo wneud yn ofynnol bod yr awdurdod gorfodi'n darparu dadansoddiad manwl o'r swm a bennir yn yr hysbysiad.

(4) Nid yw'r person y mae'n ofynnol ei fod yn talu costau dan rwymedigaeth i dalu unrhyw gostau a ddangosir, gan y person hwnnw, eu bod yn gostau a achoswyd yn ddiangen.

(5) Yn yr erthygl hon, mae "costau" yn cynnwys yn benodol—

- (a) costau ymchwilio;
- (b) costau gweinyddu;
- (c) costau caffael cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

Apelau yn erbyn hysbysiadau adennill costau gorfodi

22. Caiff y person y mae'n ofynnol iddo dalu costau o dan erthygl 21 apelio yn erbyn y penderfyniad—

- (a) i osod y gofyniad i dalu costau;
- (b) ynglŷn â swm y costau hynny.

Appeals against variable monetary penalties

20.—(1) The person on whom a variable monetary penalty is imposed may appeal against the decision as to the imposition or amount of the penalty.

(2) The grounds of appeal are—

- (a) that the decision was based on an error of fact;
- (b) that the decision was wrong in law;
- (c) that the amount of the penalty is unreasonable;
- (d) that the decision was unreasonable for any other reason;
- (e) any other reason permitted by the First-tier Tribunal.

Enforcement costs recovery notices

21.—(1) The enforcement authority may by notice require a person on whom a variable monetary penalty is imposed to pay the costs incurred by the enforcement authority in relation to the imposition of the penalty up to the time of its imposition.

(2) The notice must specify the amount required to be paid.

(3) The person on whom the notice is served may require the enforcement authority to provide a detailed breakdown of the amount specified in the notice.

(4) The person required to pay costs is not liable to pay any costs shown by the person to have been unnecessarily incurred.

(5) In this article, "costs" include in particular—

- (a) investigation costs;
- (b) administration costs;
- (c) costs of obtaining expert advice (including legal advice).

Appeals against enforcement costs recovery notices

22. The person required under article 21 to pay costs may appeal against the decision—

- (a) to impose the requirement to pay costs;
- (b) as to the amount of those costs.

RHAN 4

Canllawiau a chyhoeddi camau gorfodi

Canllawiau ynghylch defnyddio sancsiynau sifil

23.—(1) Rhaid i'r awdurdod gorfodi gyhoeddi canllawiau ynghylch y modd mae'n defnyddio sancsiynau sifil.

(2) Rhaid i'r canllawiau gynnwys gwybodaeth ynglŷn ag—

- (a) yr amgylchiadau y mae'n debygol y gosodir sancsiwn sifil o danynt;
- (b) yr amgylchiadau na chaniateir ei gosod o danynt;
- (c) mewn perthynas â chosb ariannol benodedig—
 - (i) swm y gosb; a
 - (ii) sut y gall y rhwymedigaeth am y gosb gael ei chyflawni ac effaith ei chyflawni;
- (ch) yn achos cosb ariannol newidiol, y materion sy'n debyg o gael eu cymryd i ystyriaeth gan yr awdurdod gorfodi wrth benderfynu ar swm y gosb (gan gynnwys pan fo'n berthnasol, unrhyw ddisgowntiau am adrodd yn wirfoddol am ddiffyg cydymffurfio);
- (d) hawliau i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau; ac
- (dd) hawliau i apelio.

(3) Rhaid i'r awdurdod gorfodi ddiwygio'r canllawiau pan fo'n briodol.

(4) Rhaid i'r awdurdod gorfodi ymgynghori â pha bynnag bersonau yr ystyria'n briodol cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau neu ganllawiau diwygiedig.

(5) Rhaid i'r awdurdod gorfodi roi sylw i'r canllawiau neu'r canllawiau diwygiedig wrth arfer ei swyddogaethau.

Canllawiau ynghylch y gofyniad i dalu costau

24. Rhaid i'r awdurdod gorfodi gyhoeddi canllawiau ynglŷn â'r modd y bydd yn arfer y pŵer a roddir gan erthygl 21.

Cyhoeddi camau gorfodi

25.—(1) Rhaid i'r awdurdod gorfodi, o bryd i'w gilydd, gyhoeddi adroddiadau sy'n nodi—

- (a) yr achosion y gosodwyd sancsiwn sifil ynddynt (ond nid yw hyn yn cynnwys achosion pan osodwyd sancsiwn a wrth-drowyd wedyn mewn apêl);
- (b) os cosb ariannol benodedig oedd y sancsiwn sifil, yr achosion pan gyflawnwyd y rhwymedigaeth am y gosb yn unol ag erthygl 6; ac

PART 4

Guidance and publication of enforcement action

Guidance as to use of civil sanctions

23.—(1) The enforcement authority must publish guidance about its use of civil sanctions.

(2) The guidance must contain information as to—

- (a) the circumstances in which a civil sanction is likely to be imposed;
- (b) the circumstances in which it may not be imposed;
- (c) in relation to a fixed monetary penalty—
 - (i) the amount of the penalty; and
 - (ii) how liability for the penalty may be discharged and the effect of discharge;
- (d) in relation to a variable monetary penalty, the matters likely to be taken into account by the enforcement authority in determining the amount of the penalty (including, where relevant, any discounts for voluntary reporting of non-compliance);
- (e) rights to make representations and objections; and
- (f) rights of appeal.

(3) The enforcement authority must revise the guidance where appropriate.

(4) The enforcement authority must consult such persons as it considers appropriate before publishing any guidance or revised guidance.

(5) The enforcement authority must have regard to the guidance or revised guidance in exercising its functions.

Guidance as to requirement to pay costs

24. The enforcement authority must publish guidance about how it will exercise the power conferred by article 21.

Publication of enforcement action

25.—(1) The enforcement authority must from time to time publish reports specifying—

- (a) the cases in which a civil sanction has been imposed (but this does not include cases where the sanction has been imposed but overturned on appeal);
- (b) where the civil sanction is a fixed monetary penalty, the cases in which liability for the penalty has been discharged in accordance with article 6; and

- (c) os cosb ariannol newidiol oedd y sancsiwn sifil, yr achosion pan dderbyniwyd ymrwymiad y cyfeirir ato yn erthygl 16.

(2) Ond nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn achosion pan fo'r awdurdod trwyddedu o'r farn y byddai'n amhriodol nodi'r wybodaeth y cyfeirir ati yn y paragraff hwnnw.

RHAN 5

Darpariaethau cyffredinol

Adennill taliadau

26.—(1) Caiff yr awdurdod gorfodi adennill unrhyw sancsiwn sifil a osodir o dan y Gorchymyn hwn, ac unrhyw gosb ariannol am dalu'n hwyr sy'n daladwy o dan erthygl 10, fel dyled sifil.

(2) Caiff yr awdurdod gorfodi adennill unrhyw sancsiwn sifil a osodir o dan y Gorchymyn hwn, ac unrhyw gosb ariannol am dalu'n hwyr sy'n daladwy o dan erthygl 10, ar orchymyn gan lys, fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys.

Talu rhai taliadau cyflawni rhwymedigaeth i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru

27. Pan fo'r awdurdod gorfodi yn cael unrhyw daliad o dan erthygl 6, rhaid i'r awdurdod ei dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru(1).

Apelau — darpariaethau pellach

28.—(1) Gwneir unrhyw apêl o dan y Gorchymyn hwn i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf(2).

(2) Mewn unrhyw apêl, mae'r baich prawf ar yr awdurdod gorfodi, ac—

- (a) os yw'r cwestiwn pa un a gyflawnwyd tramgwydd i'w benderfynu yn yr apêl, rhaid i'r awdurdod gorfodi brofi, y tu hwnt i amheuaeth resymol, y cyflawnwyd y tramgwydd;
- (b) mewn perthynas ag unrhyw fater arall sydd i'w benderfynu yn yr apêl, y Tribiwnlys Haen Gyntaf sydd i benderfynu'r safon o brawf.

(1) Sefydlwyd o dan adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Gweler hefyd baragraff 12(2)(a) a (b) o Atodlen 7 i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23), sy'n gwneud yn ofynnol bod unrhyw gosb ariannol benodedig, cosb ariannol newidiol neu gosb ariannol arall am dalu'n hwyr, sy'n daladwy o dan y Gorchymyn hwn yn cael ei thalu i Gronfa Gyfunol Cymru.

(2) Neilltuir apelau i Siambr Reoleiddio Gyffredinol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn rhinwedd erthygl 5B(a) o Orchymyn Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys (Siambrau) 2010 (O.S 2010/2655). Pennir y rheolau trefniadol mewn perthynas ag apelau o'r fath yn Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009 (O.S. 2009/1976).

- (c) where the civil sanction is a variable monetary penalty, the cases in which an undertaking referred to in article 16 is accepted.

(2) But paragraph (1) does not apply in cases where the licensing authority considers that it would be inappropriate to specify the information referred to in that paragraph.

PART 5

General provisions

Recovery of payments

26.—(1) The enforcement authority may recover any civil sanction imposed under this Order, and any financial penalty for late payment payable under article 10, as a civil debt.

(2) The enforcement authority may recover any civil sanction imposed under this Order, and any financial penalty for late payment payable under article 10, on the order of a court, as if payable under a court order.

Payment of certain discharge payments into Welsh Consolidated Fund

27. Where the enforcement authority receives any payment under article 6, the authority must pay it into the Welsh Consolidated Fund(1).

Appeals — further provisions

28.—(1) Any appeal under this Order is to the First-tier Tribunal(2).

(2) In any appeal the burden of proof is on the enforcement authority, and—

- (a) where a question to be decided on the appeal is whether an offence has been committed, the enforcement authority must prove the commission of the offence beyond reasonable doubt;
- (b) in respect of any other issue to be decided on the appeal, the First-tier Tribunal is to determine the standard of proof.

(1) Established under section 117 of the Government of Wales Act 2006 (c.32) See also paragraph 12(2)(a) and (b) of Schedule 7 to the Marine and Coastal Access Act 2009 (c.23), which requires any fixed monetary penalty, variable monetary penalty or other financial penalty for late payment payable under this Order to be paid into the Welsh Consolidated Fund.

(2) Appeals are assigned to the General Regulatory Chamber of the First-tier Tribunal by virtue of article 3 of the First-tier Tribunal and Upper Tribunal (Chambers) Order 2010 (S.I. 2010/2655). The Tribunal Procedure (First-tier Tribunal) (General Regulatory Chamber) Rules 2009 (S.I. 2009/1976) sets out procedural rules relating to such appeals.

(3) Atelir hysbysiad sy'n destun apêl, ac unrhyw ofyniad mewn hysbysiad o'r fath hyd nes penderfynir yr apêl honno.

(4) Caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf—

- (a) tynnu'r gofyniad neu'r hysbysiad yn ôl;
- (b) cadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad;
- (c) amrywio'r gofyniad neu'r hysbysiad;
- (ch) cymryd unrhyw gamau y gallai'r awdurdod gorfodi eu cymryd mewn perthynas â'r weithred neu'r anwaith a arweiniodd at y gofyniad neu'r hysbysiad;
- (d) cyfeirio'r penderfyniad a ddylid cadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad, neu unrhyw fater arall ynglŷn â'r penderfyniad hwnnw, yn ôl at yr awdurdod gorfodi.

Cyflwyno hysbysiadau

29.—(1) Ceir cyflwyno neu roi unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol, neu'r awdurdodir, ei gyflwyno neu'i roi i berson o dan y Gorchymyn hwn drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol—

- (a) ei danfon yn bersonol;
- (b) ei gyfeirio i'r person a'i adael yn y cyfeiriad priodol;
- (c) ei gyfeirio i'r person a'i anfon i'r cyfeiriad hwnnw drwy'r post;
- (ch) mewn achos pan fo cyfeiriad ar gyfer cyflwyno drwy ddefnyddio cyfathrebiadau electronig wedi ei roi gan y person, ei anfon gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig, yn unol â'r amod a bennir ym mharagraff (4), at y person hwnnw yn y cyfeiriad hwnnw.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "y cyfeiriad priodol" yw—

- (a) yn achos corff corfforedig, ei swyddfa gofrestredig neu'i brif swyddfa;
- (b) yn achos ffyrm, prif swyddfa'r bartneriaeth;
- (c) yn achos corff neu gymdeithas anghorfforedig, prif swyddfa'r corff neu gymdeithas;
- (ch) mewn unrhyw achos arall preswylfa arferol y person neu'i breswylfa ddiwethaf sy'n hysbys, neu'i fan busnes diwethaf sy'n hysbys.

(3) Yn achos—

- (a) cwmni a gofrestrwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig,
- (b) ffyrm sy'n cynnal busnes y tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu
- (c) corff neu gymdeithas anghorfforedig sydd â'i swyddfeydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig,

mae'r cyfeiriadau ym mharagraff (2) at brif swyddfa

(3) A notice which is the subject of an appeal, and any requirement in such a notice, is suspended pending determination of that appeal.

(4) The First-tier Tribunal may—

- (a) withdraw the requirement or notice;
- (b) confirm the requirement or notice;
- (c) vary the requirement or notice;
- (d) take such steps as the enforcement authority could take in relation to the act or omission giving rise to the requirement or notice;
- (e) remit the decision whether to confirm the requirement or notice, or any matter relating to that decision, to the enforcement authority.

Service of notices

29.—(1) Any notice that is required or authorised to be served on or given to a person under this Order may be served on or given to the person by any of the following methods—

- (a) personal delivery;
- (b) addressing it to the person and leaving it at the appropriate address;
- (c) addressing it to the person and sending it to that address by post;
- (d) in a case where an address for service using electronic communications has been given by the person, sending it using electronic communications, in accordance with the condition set out in paragraph (4), to that person at that address.

(2) In paragraph (1), "the appropriate address" means—

- (a) in the case of a body corporate, its registered or principal office;
- (b) in the case of a firm, the principal office of the partnership;
- (c) in the case of an unincorporated body or association, the principal office of the body or association;
- (d) in any other case, the person's usual or last known place of residence or last known place of business.

(3) In the case of—

- (a) a company registered outside the United Kingdom,
- (b) a firm carrying on business outside the United Kingdom, or
- (c) an unincorporated body or association with offices outside the United Kingdom,

the references in paragraph (2) to its principal office

yn cynnwys cyfeiriadau at brif swyddfa'r cwmni o fewn y Deyrnas Unedig (os oes un).

(4) Yr amod a grybwyllir ym mharagraff (1)(d) yw fod rhaid i'r hysbysiad fod—

- (a) yn un y gall y person a grybwyllir yn y ddarpariaeth honno gael mynediad iddo,
- (b) yn ddarllenadwy ym mhob modd perthnasol, a
- (c) mewn ffurf sy'n ddigon parhaol i'w ddefnyddio i gyfeirio ato yn ddiweddarach.

(5) At ddibenion paragraff (4), ystyr "darllenadwy ym mhob modd perthnasol" yw fod yr wybodaeth a gynhwysir yn yr hysbysiad ar gael i'r person hwnnw i'r un graddau, o leiaf, ag y byddai pe bai'r wybodaeth wedi ei chyflwyno neu'i rhoi drwy gyfrwng hysbysiad printiedig.

Diwygio neu dynnu'n ôl hysbysiadau terfynol i ddadwneud neu leihau cosb neu gywiro gwallau

30.—(1) Caiff yr awdurdod gorfodi, ar unrhyw adeg ar ôl rhoi hysbysiad terfynol—

- (a) penderfynu y dylid dadwneud cosb a osodwyd gan yr hysbysiad; neu
- (b) yn achos cosb ariannol newidiol, penderfynu lleihau swm y gosb.

(2) Pan fo'r awdurdod gorfodi yn penderfynu o dan baragraff (1)(a) y dylid dadwneud cosb—

- (a) rhaid iddo roi hysbysiad i'r person y gosodwyd y gosb arno, i'r perwyl bod yr hysbysiad terfynol wedi ei dynnu'n ôl a'r gosb wedi ei dadwneud; neu
- (b) os yw'r hysbysiad terfynol hefyd yn gosod sancsiwn sifil nad yw'r penderfyniad o dan y paragraff hwnnw'n berthynol iddo, rhaid i'r awdurdod gorfodi gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad terfynol diwygiedig sy'n dadwneud y gosb y mae'r penderfyniad o dan y paragraff hwnnw'n berthynol iddi.

(3) Pan fo'r awdurdod gorfodi, o dan baragraff (1)(b), yn penderfynu lleihau swm cosb, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad terfynol diwygiedig i gywiro gwall yn yr hysbysiad a ddyroddwyd o dan erthygl 8(3) neu 17(4).

(4) Caiff yr awdurdod gorfodi, ar unrhyw adeg gyflwyno hysbysiad terfynol diwygiedig i gywiro gwall yn yr hysbysiad a ddyroddwyd o dan erthygl 8(3) neu 17(4).

include references to its principal office within the United Kingdom (if any).

(4) The condition mentioned in paragraph (1)(d) is that the notice must be—

- (a) capable of being accessed by the person mentioned in that provision,
- (b) legible in all material respects, and
- (c) in a form sufficiently permanent to be used for subsequent reference.

(5) For the purposes of paragraph (4), "legible in all material respects" means that the information contained in the notice is available to that person to no lesser extent than it would be if served or given by means of a notice in printed form.

Amending or withdrawing final notices to rescind or reduce a penalty or to correct errors

30.—(1) The enforcement authority may at any time after a final notice has been issued—

- (a) decide that a penalty imposed by the notice should be rescinded; or
- (b) in the case of a variable monetary penalty, decide to reduce the amount of the penalty.

(2) Where the enforcement authority decides under paragraph (1)(a) that a penalty should be rescinded—

- (a) it must give notice to the person on whom the penalty has been imposed, that the final notice is withdrawn and the penalty rescinded; or
- (b) where the final notice also imposes a civil sanction to which a decision under that paragraph does not relate, the enforcement authority must serve on that person an amended final notice which rescinds the penalty to which the decision under that paragraph relates.

(3) Where the enforcement authority decides under paragraph (1)(b) to reduce the amount of a penalty, it must serve an amended final notice to correct an error in the notice issued under article 8(3) or 17(4).

(4) The enforcement authority may at any time serve an amended final notice to correct an error in the notice issued under article 8(3) or 17(4).

Jane Davidson

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a
Thai, un o Weinidogion Cymru

Minister for Environment, Sustainability and Housing,
one of the Welsh Ministers

22 Mawrth 2011

22 March 2011

©© Hawlfraint y Goron 2011

© Crown copyright 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office
Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei
Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the
authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's
Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2011 Rhif 924 (Cy.133)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

LLYGRU MOROL, CYMRU

**TRIBIWNLYSOEDD AC
YMCHWILIADAU, CYMRU**

Gorchymyn Trwyddedu Morol
(Sanctiynau Sifil) (Cymru) 2011

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 No. 924 (W.133)

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

**MARINE POLLUTION,
WALES**

**TRIBUNALS AND INQUIRIES,
WALES**

The Marine Licensing (Civil
Sanctions) (Wales) Order 2011